# Wylfa Decommissioning Site Report

## Site Stakeholder Group Meeting
## 14 October 2021

## Stuart Law
## Site Director



## Site Director's Summary (February 2021 – September 2021)

Who would have thought seven months on from our last meeting we would still have to meet virtually? Hopefully there are some positive signs with many of the restrictions eased now in Wales. I am pleased to report that despite the ongoing challenges, the site remains operational and projects are progressing well, safely and compliantly.

## Covid-19

Although restrictions have been lifted in Wales, on site it is still mandatory to wear face coverings when in communal areas, using air purifiers in office spaces and we are continuing to maintain 2 meters. The only change we have made at site is the removal of the one-way systems. We continue to monitor and review at site and company level.

There have been a handful of positive cases within the workforce and contractors recorded recently and appropriate actions were taken.

We have now moved from using the test centre, which was set up on site, to encouraging staff to use home testing Lateral Flow Test kits and test themselves at home. The recommendation is that everyone tests themselves twice a week, Sunday evening and Wednesday before coming to site.



I took the opportunity to thank the group of volunteers who had been running the Lateral Flow Test Centre for the last few months in addition to their normal roles. Their help in running the centre was greatly appreciated. Following our return to site, it helped keep us safe and allowed us to function as a decommissioning site through a very difficult period.

## Safety performance

Total recorded incident rate (TRIR): 0.00
Days away case rate (DACR): 0.00
No of days since a lost time accident: 162 (21.09.21)

Whilst Wylfa has maintained an excellent safety record, three people were injured on Magnox sites earlier in the year. Small changes to the work or work environment were a factor and could have been prevented had the change in configuration or conditions been challenged. A companywide safety campaign and stand down was held in May to refocus minds on the risks of being distracted.

## People

We now have all of security back on-site full time. There are currently 180 Magnox employees and nine agency supplied workers at Wylfa. This figure is inclusive of 11 new starters following a recent recruitment exercise. In addition, I am delighted to have welcomed a new maintenance apprentice who started at Wylfa earlier this month. Three additional apprentices have also joined Trawsfynydd site.

A review of the office space has been carried out and a room for 'hot desks' have been made available to book for any Magnox Support Office staff who continue to work from home.

## Site progress and achievements

Work is progressing well albeit adhering to the Covid-19 rules. Here are some highlights:

## Deaerator Floor

In June the contract to remove all Asbestos Containing Material from the Deaerator Floor area of the Turbine Hall was awarded to Altrad.



Altrad will be the Principal Contractor for this contract, a first at Wylfa, meaning they were appointed in writing by Magnox to plan, manage, monitor and deliver this project.
The team have mobilised a dedicated project team, produced all the necessary documentation, procured/ hired equipment and materials and set up the work area in readiness for the large scaffold structures which are to be erected.
Magnox promotes sustainability and a perfect example of this is where asbestos equipment was transported from Dungeness to Wylfa for re-use which saved the project almost £80,000.

## Post Operational Clean Out

This project has seen the removal of the 110v gas turbine switch gear batteries and the ongoing removal of legacy items from the reactor building. The breathing apparatus training facility has been emptied. Nine old portable cabins were purchased and removed by OBR and Caernarfon Commercials to refurbish and reuse.





Ten new sustainable portacabins with sensor lights, double glazed plastic windows, ventilation fans and painted with marine paint to withstand the coastal weather arrived as replacement for contractor use.

**Breathing Apparatus Training facility, fire training 'smoke' room before clear out**









**Breathing Apparatus Training facility, fire training 'smoke' room after**









### Infrastructure Removal

The site, over its 40-year operational lifetime has accumulated significant radiologically contaminated and conventional waste within the various plant areas and offices. The reactor building alone has 602 rooms, ranging from vast open areas such as the pile cap to small individual lockable rooms. The waste accumulated ranged from contaminated spares and equipment that were used during vessel entries to conventional waste such as paperwork and furniture within offices, all of which must be removed.

**Reactor building – 143' Plant room before the clear out**





**Reactor building – 143' Plant room after**



## Electrical Overlay System



Scottish Power Energy Networks is the agreed contractor for the offsite work. Ecology surveys completed on the proposed cable route for the off-site supply. Work is now underway with the tender process to select a supplier for the onsite distribution works. Site continues to develop the rationalisation scope of the 415v boards.

## Intermediate Level Waste Characterisation

Work is being carried out to characterise waste in plant areas that have been highlighted as ‘hot spots’ around site and could possibly be Intermediate Level Waste.
The current Radioactive Waste Inventory for site highlights that we will need 11 Ductile Cast Iron Containers to hold and store the known Intermediate Level Waste. This Project will confirm whether the true inventory is more and if so, how much more to enable suitable storage facilities for the containers to be built as the current strategy is to compliantly store ILW on-site until there is a Geological Disposal Facility (GDF) available somewhere in the UK. According to the NDAs planning assumption, the GDF could be available in 20 years. Here on-site we are designing an ILW store for a 100 year life, similar to what has been undertaken at other locations within the Magnox fleet.

The Projects approach has been to carryout on-site sampling and then send the samples to a suitable Analysis laboratory for characterisation.  We are now at an advanced stage with just one key area left to sample, the Flask Filling Area trough. However, this is a significant piece of work as it entails the development of bespoke tooling and their deployment in a high dose area.

The laboratory analysis must be robust and as a consequence takes time. There are a number of packages of work currently at different stages of analysis. With this in mind the Project is targeting a mid-year 2022 milestone for knowing the true ILW inventory for Wylfa.

## Reuse of redundant pipework

In June Ramco, our asset disposal specialists, removed several sections of redundant pipework, associated with the emergency feed supply to the raw feed water tanks, for future reuse and to return value to the NDA.
The site asset disposal team was able to load approximately 100 lengths of pipework safely onto the Ramco transport, along with a set of large Avery scales. The full load weighed in at five tonnes and is another great achievement in the efforts to clean up the site. By following the waste hierarchy of reuse, it was identified and acknowledged that our redundant equipment can be reused and return value to the company to enable further decommissioning activities.



*Redundant pipework loaded onto Ramco's transport*

## Reviews and visits

An Environment, Health, Safety, Security and Quality review was held at the end of August by representatives of the Magnox Executive Board.
The main purpose of the visit was to go out and about around the site to talk to those people who had returned to site. The feedback received from the review was very positive, indicating how good the site looked, with strong leadership and the new establishment of the Construction Office being excellent. There were one or two findings to address such as the review of the machinery at the workshop and training for new Safety Representatives.

## Maentwrog Operations

Rainfall between 1 January and 31 July was 1040.2 mm.

Renewable electricity generation during the same period was 36.7gigawatt hours, against the target of 25 gigawatt hours.

The annual Outage at Maentwrog commenced 14 June. Planned critical activities went well on the tunnel and pipeline maintenance, which was completed as per schedule. Work this year focused on concrete repairs in tunnel two, undertaken by Dyer & Butler Ltd.
Mona Lifting Ltd carried out the low pressure pipeline plating works.
During recommissioning activities on 5 July 2021, it was observed that a seal on the main dam control gate hydraulic operating ram had failed, causing a minor oil spillage. This spillage entered the tunnel and pipeline waterways, however a full recovery operation took place. It is believed that no more than 10 litres of oil were lost.
The event was reported through the normal channels and Natural Resource Wales was informed. An Operational Decision Making meeting was convened and a recovery programme was agreed.
No oil was observed in the discharge route from the site.
To facilitate the repair, a non-standard, specialist designed scaffold was designed and built by the Altrad Team.
The hydraulic ram was overhauled and refitted. The seal was pressure tested, the Operational Decision Making was reconvened to ensure that the right actions have been undertaken and agreements reached regarding returning to service.

The site returned to service early August.



*Mona Group undertaking pipeline*



*Dyer and Butler Tunnel 2 rescue demonstration*

## Smarter Working Workshops

The global pandemic has caused many of us to think differently about how we work; from reframing workspaces as Covid secure to meeting virtually.
Magnox convened a working group last summer and the Smarter Working programme was formed to look at ways we can give people the option to work in a way they find most productive.
The programme has five work streams: behaviours and culture, technology, smarter spaces, HR and security.
The aim of Smarter Working is to improve the way we all work and give us the technology to do so both on site and at home. From an on-site perspective we will be aiming to provide an improved access to the I.T. network through Wi-Fi, streamlining and digitising processes and provide site workers with the right technology and equipment to do their jobs effectively.
A trial is underway at Trawsfynydd site for plant technicians to use tablet devices when working out in the field rather than having to return to the office to check documentation.

## Magnox Socio-economic Scheme update

Môn Communities Forward (Môn CF) formed in 2012 as a registered charity and company limited by guarantee. Through their main office and academy in Holyhead and part-time drop-in offices in Menai Bridge, Llangefni and Amlwch they deliver Welsh Government's 'LIFT' programme, Communities for work and assist individuals into employment.

Magnox have supported Môn CF in the past with the 'Journey to Work Programme' and securing two roles in the Academy whilst transitioning to new premises. These roles are now sustainable beyond the Magnox funding. The funding allowed 450 participants to gain qualifications across Anglesey and moved 240 people into work in 2020/21alone.



Môn CF secured funding to purchase the empty old Barclays Bank in Amlwch and with help through the socio-economic scheme recently had approval of £98,000 from Magnox to assist with the transformation into a ‘multi agency hub’, creating four additional jobs. Rather than a two day drop-in facility, this will provide full time support for local individuals in the Amlwch area to gain qualifications, find work placements and employment or assistance with setting up their own businesses.

Cemaes Bay Football Club junior section recently received £535 from the Magnox socio-economic scheme to purchase additional training equipment. 60 new balls and two goals helped meet the demand of increased members from 30 children to 80 and welcomed an additional younger age group.






**For more information and the latest news from Wylfa, visit:**

https://www.gov.uk/government/collections/our-sites
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites

# Adroddiad Datgomisiynu Safle Wylfa

## Cyfarfod Grŵp Rhanddeiliaid y Safle
## 14 Hydref 2021


## Stuart Law
## Cyfarwyddwr y Safle




## Crynodeb Cyfarwyddwr y Safle (Chwefror 2021 – Medi 2021)

A hithau'n saith mis ers ein cyfarfod diwethaf, pwy fyddai wedi meddwl y byddai'n rhaid i ni gwrdd ar-lein o hyd? Gobeithio bod rhai arwyddion cadarnhaol o ystyried bod llawer o'r cyfyngiadau wedi cael eu llacio yng Nghymru erbyn hyn. Rwy'n falch o ddweud, er gwaethaf yr heriau parhaus, bod y safle'n dal yn weithredol a bod prosiectau'n mynd rhagddynt yn dda ac yn ddiogel, gan gydymffurfio.

## Covid-19

Er bod cyfyngiadau wedi cael eu codi yng Nghymru, mae'n dal yn orfodol gwisgo gorchuddion wyneb mewn mannau cymunedol ar y safle, defnyddio peiriannau puro aer mewn swyddfeydd ac rydyn ni'n parhau i gadw 2 fetr o bellter. Yr unig newid rydym wedi'i wneud ar y safle yw cael gwared â'r systemau unffordd. Rydym yn parhau i fonitro ac adolygu ar lefel safle a chwmni.

Cofnodwyd llond llaw o achosion positif ymysg y gweithlu a chontractwyr yn ddiweddar ac fe gymerwyd camau priodol.

Rydym bellach wedi symud o ddefnyddio'r ganolfan brofi a sefydlwyd ar y safle, i annog staff i ddefnyddio Profion Llif Unffordd i brofi eu hunain gartref. Yr argymhelliad yw bod pawb yn profi eu hunain ddwywaith yr wythnos, nos Sul a dydd Mercher cyn dod i'r safle.



Manteisiais ar y cyfle i ddiolch i'r grŵp o wirfoddolwyr a fu'n rhedeg y Ganolfan Profion Llif Unffordd dros y misoedd diwethaf, yn ogystal â chyflawni eu rolau arferol. Roedd eu cymorth i redeg y ganolfan yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Pan wnaethom ni ddychwelyd i'r safle, roeddent yn ein cadw'n ddiogel ac yn caniatáu i ni weithredu fel safle datgomisiynu drwy gyfnod anodd iawn.

## Perfformiad diogelwch

Cyfradd cyfanswm y digwyddiadau a gofnodwyd (TRIR): 0.00
Cyfradd achosion diwrnodau i ffwrdd (DACR): 0.00
Nifer y diwrnodau ers damwain colli amser: 162 (21.09.21)

Er bod gan safle Wylfa record ddiogelwch ardderchog, cafodd tri o bobl eu hanafu ar safleoedd Magnox yn gynharach eleni. Roedd newidiadau bach i'r gwaith neu'r amgylchedd gwaith yn ffactor, a gellid fod wedi atal y damweiniau pe bai'r newid yn y ffurfweddiad neu'r amodau wedi cael eu herio. Cafodd sesiwn ac ymgyrch diogelwch eu cynnal ar draws y cwmni ym mis Mai er mwyn canolbwyntio o'r newydd ar y peryglon pan fydd rhywbeth arall yn mynd â'ch sylw.

### Pobl

Mae'r holl staff diogelwch yn ôl ar y safle'n llawnamser erbyn hyn. Ar hyn o bryd mae 180 o weithwyr Magnox a naw weithiwr a gyflenwir gan asiantaeth yn Wylfa. Mae'r ffigur hwn yn cynnwys 11 o weithwyr newydd yn dilyn ymarfer recriwtio diweddar. Hefyd, rwy'n falch iawn o fod wedi croesawu prentis cynnal a chadw newydd a ddechreuodd yn Wylfa yn gynharach y mis hwn. Mae tri phrentis ychwanegol wedi ymuno â safle Trawsfynydd hefyd.

Mae adolygiad o'r swyddfa wedi cael ei gynnal ac mae ystafell ar gyfer desgiau a rennir (*hot desks*) ar gael i'w harchebu gan unrhyw aelod o staff Swyddfa Cymorth Magnox sy'n parhau i weithio gartref.

### Cynnydd a chyflawniadau'r safle

Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda er bod angen glynu wrth reolau Covid-19. Dyma rai uchafbwyntiau:

### Llawr Dadawyru

Ym mis Mehefin, cafodd y contract i dynnu'r holl ddeunydd sy'n cynnwys asbestos o ardal y llawr dadawyru yn Neuadd y Tyrbin ei ddyfarnu i Altrad.



Altrad fydd Prif Gontractwr y contract hwn, a hynny am y tro cyntaf yn Wylfa, sy'n golygu ei fod wedi'i benodi'n ysgrifenedig gan Magnox i gynllunio, rheoli, monitro a chyflawni'r prosiect hwn.
Mae'r tîm wedi paratoi tîm pwrpasol ar gyfer y prosiect, cynhyrchu'r holl ddogfennau angenrheidiol, caffael/llogi offer a deunyddiau, a pharatoi'r ardal waith yn barod ar gyfer y strwythurau sgaffaldiau mawr a fydd yn cael eu codi.
Mae Magnox yn hyrwyddo cynaliadwyedd ac enghraifft berffaith o hyn yw pan gafodd offer asbestos ei gludo o Dungeness i Wylfa i'w ailddefnyddio, a oedd yn arbed bron i £80,000 i'r prosiect.

### Glanhau ar ôl Gweithredu

Mae batris gêr switsh 110v tyrbinau nwy wedi cael eu tynnu fel rhan o'r prosiect hwn, yn ogystal â'r gwaith parhaus o symud eitemau gwaddol o adeilad yr adweithydd.
Mae'r cyfleuster hyfforddiant cyfarpar anadlu wedi cael ei wagio. Cafodd naw hen gaban symudol eu prynu a'u symud gan OBR a Caernarfon Commercials i'w hadnewyddu a'u hailddefnyddio.





Mae deg caban symudol newydd ar gyfer contractwyr wedi cyrraedd yn eu lle, sydd â goleuadau synhwyro symudiad, ffenestri plastig gwydr dwbl a ffaniau awyru, ac sydd wedi'u paentio â phaent morol i wrthsefyll y tywydd arfordirol.

**Cyfleuster Hyfforddiant Offer Anadlu, ystafell 'mwg' ar gyfer hyfforddiant tân cyn clirio**









**Cyfleuster Hyfforddiant Offer Anadlu, ystafell 'mwg' ar gyfer hyfforddiant tân ar ôl clirio**









### Tynnu Seilwaith

Dros ei oes weithredol o 40 mlynedd, mae'r safle wedi cronni llawer o wastraff radiolegol halogedig a chonfensiynol yn y swyddfeydd a'r ardaloedd offer amrywiol. Mae 602 o ystafelloedd yn adeilad yr adweithydd yn unig, sy'n amrywio o fannau agored eang fel y 'pile cap' i ystafelloedd unigol y gellir eu cloi. Roedd y gwastraff a gasglwyd yn amrywio o offer a darnau sbâr wedi'u halogi a ddefnyddiwyd wrth osod pibellau, i wastraff confensiynol fel gwaith papur a dodrefn mewn swyddfeydd, ac mae'n rhaid clirio'r rhain i gyd.

**Adeilad yr adweithydd – Ystafell offer 143' cyn clirio**





**Adeilad yr adweithydd – Ystafell offer 143' ar ôl clirio**



## System Troshaen Trydanol



Scottish Power Energy Networks yw'r contractwr y cytunwyd arno ar gyfer y gwaith oddi ar y safle. Mae arolygon ecoleg wedi'u cynnal ar y llwybr ceblau arfaethedig ar gyfer y cyflenwad oddi ar y safle. Mae gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd gyda'r broses dendro i ddewis cyflenwr ar gyfer y gwaith dosbarthu ar y safle. Mae'r safle'n parhau i ddatblygu cwmpas rhesymoli'r byrddau 415v.

## Pennu Nodweddion Gwastraff Lefel Ganolraddol

Mae gwaith yn cael ei wneud i bennu nodweddion gwastraff mewn ardaloedd offer sydd wedi'u hamlygu fel 'poethfannau' o amgylch y safle ac a allai fod yn Wastraff Lefel Ganolradd.
Mae'r Rhestr Gwastraff Ymbelydrol bresennol ar gyfer y safle yn dangos y bydd angen 11 Cynhwysydd Haearn Bwrw Hydwyth arnom i ddal a storio'r Gwastraff Lefel Ganolraddol hysbys. Bydd y Prosiect hwn yn cadarnhau a yw'r stocrestr go iawn yn fwy ac os felly, faint mwy fydd ei angen i allu adeiladu cyfleusterau storio addas ar gyfer y cynwysyddion, gan mai'r strategaeth bresennol yw storio Gwastraff Lefel Ganolraddol ar y safle mewn modd sy'n cydymffurfio nes bod Cyfleuster Gwaredu Daearegol (GDF) ar gael rywle yn y DU. Yn ôl rhagdybiaeth gynllunio'r NDA, gallai'r CGD fod ar gael mewn 20 mlynedd. Yma ar y safle rydyn ni'n dylunio storfa Gwastraff Lefel Ganolraddol ar gyfer oes o 100 mlynedd, sy'n debyg i'r hyn sydd wedi cael ei wneud mewn lleoliadau eraill yn fflyd Magnox.

Dull y Prosiect yw samplu ar y safle ac yna anfon y samplau i labordy dadansoddi addas i bennu eu nodweddion. Rydym yn nesáu at ddiwedd y broses erbyn hyn, gyda dim ond un ardal allweddol ar ôl i'w samplu, sef cafn yr Ardal Llenwi Fflasgiau. Fodd bynnag, mae hwn yn ddarn sylweddol o waith gan ei fod yn golygu datblygu offer pwrpasol a'u defnyddio mewn ardal dos uchel.

Rhaid i ddadansoddiad y labordy fod yn gadarn ac mae'n cymryd amser o ganlyniad i hyn. Mae nifer o becynnau gwaith ar wahanol gamau dadansoddi ar hyn o bryd. Gyda hyn mewn golwg, mae'r Prosiect yn targedu canol 2022 fel carreg filltir ar gyfer gwybod beth yw'r stocrestr Gwastraff Lefel Ganolraddol go iawn ar gyfer Wylfa.

## Ailddefnyddio pibellau diangen

Ym mis Mehefin fe wnaeth Ramco, ein harbenigwyr gwaredu asedau, dynnu nifer o ddarnau o bibellau diangen, a oedd yn gysylltiedig â'r cyflenwad porthiant brys i'r tanciau dŵr porthiant crai, i'w hailddefnyddio yn y dyfodol ac i ddychwelyd gwerth i'r NDA.
Roedd tîm gwaredu asedau'r safle'n gallu llwytho tua 100 hyd o bibellau'n ddiogel ar drafnidiaeth Ramco, ynghyd â set o gloriannau Avery mawr.
Roedd y llwyth llawn yn pwyso pum tunnell ac roedd yn llwyddiant mawr arall yn yr ymdrechion i lanhau'r safle. Drwy ddilyn yr hierarchaeth ailddefnyddio gwastraff, nodwyd a chydnabuwyd y gellir ailddefnyddio ein hoffer diangen a dychwelyd gwerth i'r cwmni er mwyn galluogi gweithgareddau datgomisiynu pellach.



*Pibellau diangen yn cael eu llwytho ar drafnidiaeth Ramco*

### Adolygiadau ac ymweliadau

Cynhaliwyd adolygiad o'r Amgylchedd, Iechyd, Diogelwch ac Ansawdd ddiwedd mis Awst gan Weithrediaeth Magnox.

Prif bwrpas yr ymweliad oedd mynd allan o gwmpas y safle i siarad a'r bobl hynnya oedd wedi dychwelyd i'r safle.

Roedd yr adborth a gafwyd o'r adolygiad yn gadarnhaol iawn, gan nodi pa mor dda yr edrychai'r safle, gydag arweinyddiaeth gref a sefydlu'r Swyddfa Adeiladu newydd yn rhagorol. Roedd un neu ddau o ganfyddiadau i fynd i'r afael â hwy megis adolygu'r p eiriannau yn y gweithdy a hyfforddiant i Gynrychiolwyr Diogelwch newydd.

### Gweithrediadau Maentwrog

Roedd y glawiad rhwng 1 Ionawr a 31 Gorffennaf yn 1040.2 mm.

Roedd y lefel cynhyrchu trydan adnewyddadwy yn ystod yr un cyfnod yn 36.7 gigawat awr o'i gymharu â'r targed o 25 gigawat awr.

Dechreuodd y Cyfnod Segur blynyddol ym Maentwrog ar 14 Mehefin. Aeth y gweithgareddau critigol a gynlluniwyd ar y twnnel a'r gwaith cynnal a chadw pibellau yn dda, ac fe gawsant eu cwblhau yn unol â'r amserlen. Roedd y gwaith eleni'n canolbwyntio ar waith atgyweirio concrid yn nhwnnel dau, a wnaed gan Dyer & Butler Ltd.

Cafodd y gwaith o blatio'r bibell gwasgedd isel ei gynnal gan Mona Lifting Ltd.

Yn ystod y gweithgareddau ailgomisiynu ar 5 Gorffennaf 2021, gwelwyd bod sêl yr hwrdd gweithredu hydrolig ar brif giât rheoli'r argae wedi methu, gan achosi i rywfaint o olew ollwng. Aeth yr olew wedi gollwng i mewn i ddyfrffyrdd y twnnel a'r bibell, ond cynhaliwyd gwaith adfer llawn. Credir na chollwyd mwy na 10 litr o olew.

Adroddwyd ar y digwyddiad drwy'r sianelau arferol a rhoddwyd gwybod i Cyfoeth Naturiol Cymru. Cynhaliwyd cyfarfod Gwneud Penderfyniadau Gweithredol a chytunwyd ar raglen adfer.

Ni welwyd unrhyw olew yn y llwybr gollwng o'r safle.

I hwyluso'r gwaith atgyweirio, cafodd sgaffald arbenigol, ansafonol ei ddylunio a'i adeiladu gan dîm Altrad.

Cafodd yr hwrdd hydrolig ei ailwampio a'i ailosod. Profwyd y sêl dan bwysau ac fe wnaeth y tîm Gwneud Penderfyniadau Gweithredol ailymgynnull i sicrhau bod y camau cywir wedi'u cymryd a bod cytundebau wedi'u gwneud ynghylch ailddechrau gweithredu.

Roedd y safle’n weithredol eto ddechrau mis Awst.



***Grŵp Mona yn atgyweirio piblinellau***



***Dyer & Butler yn achub Twnnel 2***

### Gweithdai Gweithio’n Glyfar

Mae’r pandemig byd-eang wedi achosi i lawer ohonom feddwl yn wahanol am sut rydyn ni’n gweithio; o gyfarfod ar-lein i addasu mannau gwaith i fod yn ddiogel o ran Covid.
Fe wnaeth Magnox lunio gweithgor yr haf diwethaf ac fe ffurfiwyd y rhaglen Gweithio’n Glyfar i edrych ar ffyrdd o roi’r opsiwn i bobl weithio yn y ffordd sydd fwyaf cynhyrchiol iddynt.
Mae gan y rhaglen bum ffrwd waith: ymddygiad a diwylliant, technoleg, mannau clyfar, adnoddau dynol a diogelwch.
Nod Gweithio’n Glyfar yw gwella’r ffordd rydyn ni i gyd yn gweithio a rhoi’r dechnoleg i ni wneud hynny ar y safle ac yn y cartref. O ran gweithio ar y safle, byddwn yn ceisio darparu gwell mynediad i’r rhwydwaith T.G. drwy Wi-Fi, symleiddio a digideiddio prosesau a darparu technoleg a chyfarpar addas sy’n galluogi gweithwyr y safle i wneud eu gwaith yn effeithiol.
Mae treial ar y gweill yn safle Trawsfynydd lle mae technegwyr peiriannau yn defnyddio dyfeisiau tabled wrth wneud gwaith maes yn hytrach na gorfod dychwelyd i’r swyddfa i wirio dogfennau.

### Diweddariad am Gynllun Economaidd-gymdeithasol Magnox

Ffurfiwyd Cymunedau Ymlaen Môn (Môn CF) yn 2012 fel elusen gofrestredig a chwmni cyfyngedig drwy warant. Drwy eu prif swyddfa a’u hacademi yng Nghaergybi, a’u swyddfeydd galw heibio rhan-amser ym Mhorthaethwy, Llangefni ac Amlwch, maent yn darparu rhaglen ‘LIFT’ Llywodraeth Cymru, Cymunedau am Waith, ac yn helpu unigolion i gael gwaith.

Mae Magnox wedi cefnogi Môn CF yn y gorffennol gyda’r ‘Rhaglen Taith i Waith’ ac wedi sicrhau dwy swydd yn yr Academi wrth symud i safle newydd. Mae’r rolau hyn bellach yn gynaliadwy y tu hwnt i gyllid Magnox. Fe wnaeth y cyllid alluogi 450 o gyfranogwyr i ennill cymwysterau ar draws Ynys Môn a symud 240 o bobl i mewn i waith yn 2020/21.

Mae Môn CF wedi sicrhau cyllid i brynu'r hen fanc Barclays gwag yn Amlwch ac yn ddiweddar, gyda chymorth drwy'r cynllun economaidd-gymdeithasol, mae wedi cymeradwyo £98,000 gan Magnox i helpu gyda'r gwaith o'i drawsnewid yn 'ganolfan aml-asiantaeth', gan greu pedair swydd ychwanegol. Yn hytrach na chyfleuster galw heibio dau ddiwrnod, bydd hyn yn darparu cymorth amser llawn i helpu unigolion lleol yn ardal Amlwch i ennill cymwysterau, dod o hyd i leoliadau gwaith a chyflogaeth, neu gael cymorth i sefydlu eu busnesau eu hunain.



Yn ddiweddar, cafodd adran iau Clwb Pêl-droed Bae Cemaes £535 gan gynllun economaidd-gymdeithasol Magnox i brynu offer hyfforddi ychwanegol. Fe wnaeth 60 o beli newydd a dwy gôl helpu i fodloni'r galw a chynyddu nifer yr aelodau o 30 i 80 o blant, yn ogystal â galluogi'r clwb i groesawu grŵp ychwanegol o blant iau.






**I gael rhagor o wybodaeth a'r newyddion diweddaraf o Wylfa, ewch i:**

https://www.gov.uk/government/collections/our-sites
https://twitter.com/magnoxsites
https://www.linkedin.com/company/magnox
https://www.flickr.com/photos/magnoxsites